CYNGOR BRO LLANLLWNI.

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 09 Gorffennaf 2018. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Dymunwyd gwellhad buan i Dewi Thomas yn dilyn llawdriniaeth.

AGENDA

Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Mai.

PLISMONA

Derbyniwyd ebost yn sôn am gadw llygaid ar danciau olew yn ystod yr haf gan fod achosion o ddwyn yn yr ardal.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.
Cafwyd cadarnhad bod y diwrnod hwyl a gafodd ei gynnal ddechrau Mis Gorffennaf wedi bod yn llwyddianus a bod elw o ryw £3,500.
Roedd y Clerc wedi derbyn siec am £8.31 oddi wrth "Western Power."
Penderfynwyd danfon llythyr o ddiolch at John Davies am gwblhau'r gwaith mor daclus.

GWEFAN LLANLLWNI

Roedd adroddiad o gyfarfod mis Gorffennaf ar y wefan; a byddai'n ymddangos yn y rhifyn nesaf o 'Clonc' a 'Clecs Bro Cader.'

TYLLAU YN YR HEWL

Yr oedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad y byddai Sion Lewis yn trefnu i'r criw teithiol lenwi'r tyllau fel cam dros dro. Byddai'r ardaloedd dan sylw yn cael ei hatgyweirio'n barhaol pan fyddai llafur ac arian ar gael.

SBWRIEL

Roedd y gwaith wedi'i gwblhau.

CYFARFOD SLCC:

Yr oedd y Clerc wedi derbyn gwybodaeth y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal yng Nghaerfyrddin ar fore Iau 26 Gorffennaf 2018. Penderfynwyd yn unfrydol y byddai'r Clerc yn mynychu'r cyfarfod i dderbyn y wybodaeth diweddaraf.